GWYBODAETH I RIENI / GWARCHEIDWAID

Canllaw i'r

# SYSTEM ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Newydd

Mae Llywodraeth Cymru yn newid y ffordd y mae plant a phobl ifainc ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn cael cymorth.

RHONDDA CYNON TAF

**Diffiniad AAA yn ôl y system newydd yw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'r gyfraith yn newid am nifer o resymau, ond y prif reswm yw er mwyn gwneud y broses yn symlach ac yn gliriach i bawb.**

Bydd y gyfraith newydd ar gyfer rhoi cymorth i blant a phobl ifainc ag ADY, yn arwain at sawl prif newid, gan gynnwys:

- clymu'r holl systemau cyfredol ynghyd i ffurfio un system unigol, newydd ar gyfer ADY;
- dull sy'n canolbwyntio ar y disgybl;
- yr un hawliau i bob disgybl waeth bynnag ei oedran neu'r lleoliad.
- gwell pontio rhwng lleoliadau:
- darpariaeth Gymraeg lle bo angen; a
- system deg a thryloyw i bawb.

Mae'r newidiadau yma'n golygu y bydd plant, rhieni/gwarcheidwaid a phobl ifainc:

- yn cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnyn nhw ynghynt;
- â mwy o ddweud yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am eu hanghenion cymorth;
- yn gallu dod o hyd i wybodaeth yn haws; ac
- yn cael cymorth os ydyn nhw'n anghytuno ag unrhyw benderfyniadau.

Efallai y bydd plant a phobl ifainc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y cymorth yma am gyfnod hirach. Dydy'r system newydd ddim yn golygu bod hawl awtomatig gan bob person ifanc ag ADY i gael addysg barhaus hyd at 25 oed, ond efallai y bydd modd i rai pobl ifainc gael y cymorth yma nes eu bod nhw'n 25 oed, os ydy eu hangen nhw am addysg a/neu hyfforddiant yn rhesymol.

## Sut bydd hyn yn digwydd?

**Bydd newidiadau yma'n cael eu cyflwyno'n raddol dros 3 blynedd.**

Mae hyn yn golygu y bydd dwy system yn gweithredu rhwng mis **Medi 2021 a 2024**, sef y system ADY newydd a'r system AAA gyfredol.

> Fydd plant a phobl ifainc sydd ar hyn o bryd yn derbyn darpariaeth addysgol arbennig oherwydd Datganiad AAA, a'r rheini sy'n derbyn unrhyw fath o addysg ôl-16, ddim yn cael eu cynnwys ym mlwyddyn gyntaf y dull graddol. Caiff arweiniad ynghylch y dull gweithredu ar gyfer y plant a'r bobl ifainc yma ei roi i rieni a gwarcheidwaid cyn gynted ag y bydd ar gael. Bydd rhagor o fanylion ynglŷn â sut bydd y system yn rhoi cymorth i bobl ifainc mewn addysg ôl-16 hefyd yn cael eu darparu.

Am dair blynedd bydd pob awdurdod lleol, lleoliad Blynyddoedd Cynnar, ysgol a lleoliad Addysg Bellach (e.e. Coleg Ôl-16), yn gweithio'n galed gyda phlant a'u teuluoedd, pobl ifainc a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod pawb yn deall y newidiadau yma.

Bydd gan deuluoedd gyfle i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth diduedd. Mae hyn yn statudol; hynny yw mae rhaid eu darparu yn ôl y gyfraith.

Mae'n orfodol fod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru drefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth diduedd i blant, pobl ifainc a'u teuluoedd. Yn yr awdurdod lleol yma **SNAP Cymru** sy'n darparu'r gwasanaeth yma.

Caiff y ddarpariaeth yma ei llywio gan **Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**

> **www.llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru**

Am ragor o wybodaeth am y rhaglen drawsnewid ADY, ac i weld canllawiau ar y system AAA gyfredol, ewch i:
**www.llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-anghenion-addysgol-arbennig**

Mae'n cynnwys adran cwestiynau cyffredin a chanllaw ar gyfer y rhaglen trawsnewid ADY.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Efallai y bydd gan blant a phobl ifanc ag AAA neu anawsterau/anableddau dysgu y pethau canlynol:

- **Cynllun Addysg Unigol (CAU);**
- **Datganiad;** neu
- **Cynllun dysgu a sgiliau.**

## Beth fydd yn newid?

**Bydd anghenion llawer o'r plant a'r bobl ifainc yma'n parhau i gael eu diwallu trwy ymarfer ystafell ddosbarth arferol o ansawdd uchel.**

Bydd gan ychydig o blant a phobl ifainc anhawster dysgu neu anabledd sy'n golygu bod rhaid iddyn nhw gael darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY). Mae'r ddarpariaeth yma'n wahanol neu'n ychwanegol i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol i ddisgyblion eraill o'r un oed. Bydd gan y plant a'r bobl ifainc yma gynllun datblygu unigol (CDU).

## Beth yw Cynllun Datblygu Unigol (CDU)?

**Caiff cynllun datblygu unigol neu CDU, ei lunio ar y cyd rhwng y plentyn a'r rhiant/gwarcheidwad, neu rhwng y person ifanc ac asiantaethau ehangach sydd efallai'n rhan o bethau, megis gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol.**

Bydd y CDU yn nodi'r hyn sydd ei angen ar y plant neu'r bobl ifainc yma er mwyn iddyn nhw ddysgu. Mae'r CDU yn nodi:

- yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac ar eu cyfer nhw;
- disgrifiad o'u hanghenion dysgu; a'r
- yr hyn fydd ar waith er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael y cymorth priodol yn yr ysgol neu yn y coleg, a bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) sy'n ofynnol i ddiwallu eu hanghenion, ar gael iddyn nhw.

Bydd y cynllun yma'n cael ei adolygu bob deuddeg mis, neu cyn hynny os oes angen.

Mae modd i ysgolion, colegau neu'r Awdurdod Lleol lunio CDU a bod yn gyfrifol amdano. Serch hynny, waeth pwy sy'n cynnal y CDU, mae'n dal i fod yn ddogfen gyfreithiol felly mae rhaid, yn ôl y gyfraith, gyflwyno'r ddarpariaeth sydd wedi'i nodi ynddo. Dros y tair blynedd nesaf, bydd Cynlluniau Datblygu Unigol yn disodli'r holl gynlluniau sydd gyda ni ar hyn o bryd, gan gynnwys:

- Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)
- Cynlluniau addysg unigol (CAU) ar gyfer disgyblion sy'n derbyn cymorth ar hyn o bryd trwy gam Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/cam Gweithredu'r Ysgol neu gam Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy/cam Gweithredu'r Ysgol a Mwy; a
- Cynlluniau dysgu a sgiliau (ar gyfer dysgwyr 16 oed a hŷn sy'n mynd i goleg).

## 'Dyletswydd penderfynu' newydd ysgolion

Yr ysgol sy'n penderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc Anghenion Dysgu Ychwanegol, pan ddaw achos posibl i'w sylw.

**Yr unig bryd na fydd yr ysgol yn penderfynu hynny yw os:**

- mae CDU eisoes ar waith i'r disgybl;
- mae penderfyniad eisoes wedi ei wneud bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY a dyw eu hanghenion nhw ddim wedi newid; neu
- dydy'r person ifanc ddim yn cydsynio â'r penderfyniad.

## Ailystyried penderfyniadau

**Mae modd i blentyn, ei riant, ei warcheidwad, neu berson ifanc ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried penderfyniad yr ysgol ynghylch ADY y plentyn/person ifanc.**

Yn yr achos yna, mae rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ai peidio. Pan fydd hyn yn digwydd, rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r ysgol am y cais a gofyn am ragor o wybodaeth. Does dim sicrwydd y bydd yr awdurdod lleol yn bendant yn cytuno â phenderfyniad yr ysgol; yn wir, efallai bydd yn anghytuno. Os na fydd yr awdurdod lleol yn cytuno â phenderfyniad yr ysgol, mae modd gofyn yr ysgol i ysgrifennu CDU.

Os yw plentyn neu riant/gwarcheidwad, neu berson ifanc yn anhapus gyda'r CDU, mae modd iddyn nhw ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y cynllun. Mae modd i'r awdurdod lleol adolygu'r cynllun, dweud wrth yr ysgol am ddiwygio'r cynllun, neu gadarnhau bod y cynllun yn briodol.

Pan fydd yr ysgol yn gyfrifol am y cynllun, mae modd i blentyn, ei rieni/gwarcheidwaid, person ifanc neu'r ysgol hefyd ofyn i awdurdod lleol gymryd cyfrifoldeb am y cynllun yn lle'r ysgol.

Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylid cymryd cyfrifoldeb dros y cynllun (oni bai ei fod eisoes wedi penderfynu a dydy anghenion y plentyn neu'r person ifanc ddim wedi newid yn sylweddol, a does dim gwybodaeth newydd i effeithio ar y penderfyniad). Pan fydd yr awdurdod lleol yn penderfynu na fydd yn cymryd cyfrifoldeb dros y cynllun, rhaid rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r plentyn a'r rhieni neu'r person ifanc.

# Beth os oes anghydfod?

**Bydd plant a rhieni/gwarcheidwaid yn rhan o broses ysgrifennu CDU y plentyn. Bydd gweithio yn y modd yma'n cynnig cyfleoedd i drafod pryderon ac i sicrhau bod problemau'n cael sylw prydlon fel bod modd eu datrys yn gynnar.**

Mae anghytuno'n bosibl o bryd i'w gilydd. Y bwriad yw y bydd y system ADY newydd, y broses CDU a'r ddyletswydd sydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, y rhieni neu'r person ifanc, i gyd yn helpu i oresgyn unrhyw anghydfod. Mae'n hanfodol mynd i'r afael â phroblemau cyn gynted â phosibl. Mae hi hefyd yn bwysig bod plant, rhieni/gwarcheidwaid a phobl ifainc yn cael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth diduedd.

Pan fo pryder ynghylch darpariaeth iechyd neu ofal cymdeithasol yn codi, bydd modd i blentyn, ei rieni/gwarcheidwad, neu berson ifanc, ei drafod gyda'r gweithiwr iechyd proffesiynol neu weithiwr gofal cymdeithasol. Lle byddai'n fuddiol i'r bwrdd iechyd lleol fod yn rhan o'r broses o geisio datrys anghydfod ym maes addysg, bydd yr awdurdod lleol yn cysylltu â'r Swyddog Clinigol Arweiniol Dynodedig (SCAD) i geisio cyngor.

Ar gyfer plant a rhieni/gwarcheidwaid neu bobl ifainc, mae yna nifer o ffyrdd i helpu i atal problemau neu gamddealltwriaethau rhag codi, er enghraifft:

### 1. Siarad â'r ysgol

**Siarad â Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo) yr ysgol cyn gynted ag y mae pryderon gyda chi.**

Rhannu'r holl wybodaeth sydd gyda chi am eich plentyn gyda'r ysgol a gyda gweithwyr proffesiynol eraill sy'n rhan o bethau. Byddan nhw'n:

- gwrando ac yn cymryd eich problem o ddifrif;
- eich cynnwys chi a'ch plentyn ac yn ystyried eich barn;
- edrych yn fanwl i bob problem a phryder; ac yn
- casglu gwybodaeth a chynllunio ffordd ymlaen gyda chi.



### 2. Anghytuno â'r ddarpariaeth Iechyd

**Os ydych chi'n anghytuno â phenderfyniad yr ysgol neu'r awdurdod lleol ynglyn â darpariaeth neu leoliad ADY eich plentyn, dylech chi gysylltu â'r swyddog dynodedig yng Ngwasanaeth Cynhwysiant a Mynediad yr awdurdod lleol.**

Mae modd iddo eich helpu chi i fynd i wraidd y broblem, casglu rhagor o wybodaeth, darparu cyngor a chymorth ac ailystyried penderfyniadau'r ysgol. Mae gan bob awdurdod lleol swyddogion dynodedig a fydd yn darparu cyngor a chymorth ac a fydd yn gallu helpu trwy ddarparu, ymhlith pethau eraill, y canlynol:

- cyngor diduedd ar hawliau plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc sydd angen cymorth;
- cymorth i geisio mynd i wraidd problemau a'u deall, a chynllunio ffordd ymlaen gyda phawb sy'n gysylltiedig;
- cyfarfodydd wyneb yn wyneb i benderfynu beth i'w wneud nesaf;
- cymorth i fynd i gyfarfodydd yn yr ysgol neu'r Awdurdod Lleol a chyfrannu atyn nhw; a
- cymorth parhaus os yw'n anodd datrys problemau.

### 3. Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ADY Annibynnol: SNAP Cymru

Mae hefyd modd i chi gysylltu â SNAP Cymru sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth diduedd i'ch helpu chi i wneud y canlynol:

- rhannu'ch barn yn hyderus, gwneud penderfyniadau a datblygu perthnasoedd â gweithwyr proffesiynol;
- darparu gwybodaeth glir a syml am eich opsiynau;
- eich helpu chi i benderfynu ar sail gwybodaeth; a'ch
- helpu chi i ddeall cyfraith, hawliau a phrosesau ADY.

### 4. Datrys/Cyfryngu Anghydfod

**Weithiau mae'n anodd cytuno.**

Yn yr achos yma, bydd SNAP Cymru'n darparu gwasanaeth datrys anghydfod annibynnol. Mae modd i'r gwasanaeth helpu plant, eu rhieni/gwarcheidwaid, pobl ifainc, ysgolion, a'r awdurdod addysg lleol, pan fydd anghydfod ynghylch penderfyniadau ADY a darpariaeth ADY.

Bydd cyfryngwr profiadol yn cwrdd â rhieni/gwarcheidwaid a staff yr ysgol neu'r awdurdod addysg lleol. Dydy'r cyfryngwr ddim yn ochri â neb ond bydd yn gwrando ac yn ceisio deall beth sydd wedi bod yn digwydd. Y nod yw dod o hyd i ateb ymarferol y mae modd i bawb gytuno arno.

Mae modd i blant a rhieni / gwarcheidwaid neu bobl ifainc sydd eisiau gwybod rhagor am y gwasanaeth yma siarad â SNAP Cymru trwy ffonio **0808 801 0608** neu ebostio **DRS@snapcymru.org** neu er mwyn atgyfeirio a chael rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth datrys anghydfod **www.snapcymru.org/mediation**

**5. Anghytuno â'r ddarpariaeth Iechyd**

Os oes anghydfod yn ymwneud â phenderfyniadau a darpariaeth iechyd, sydd ddim eto wedi cael eu datrys trwy drafodaethau cynharach, mae modd defnyddio'r broses "Gweithio i Wella".
**www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella**

## Tribiwnlys Addysg Cymru

**Mae gyda chi hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.**

Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol a bydd yn ystyried apeliadau lle mae anghydfod ynglŷn â phenderfyniadau'r awdurdod lleol.

Mae modd i blentyn, ei rieni/gwarcheidwaid neu berson ifanc apelio yn erbyn y canlynol:

- adolygiad o'r penderfyniad y mae'r ysgol wedi'i wneud ynghylch a oes gan y plentyn/person ifanc ADY;
- penderfyniad awdurdod lleol ynghylch a oes angen paratoi a chynnal CDU person ifanc;
- disgrifiad o ADY yr unigolyn;
- y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y CDU;
- yr ysgol sydd wedi'i henwi yn y cynllun neu os nad oes ysgol wedi'i henwi;
- penderfyniad i adolygu CDU;
- penderfyniad i beidio â chymryd cyfrifoldeb am CDU, yn dilyn cais i wneud hynny;
- penderfyniad i roi'r gorau i gynnal CDU; neu
- gwrthod penderfynu ar fater.

Os penderfynwch chi apelio i'r Tribiwnlys Addysg, dylech chi roi gwybod i swyddog penodedig yr awdurdod lleol cyn gynted â phosibl, a pharhau i drafod eich pryderon gyda nhw. Mae modd i SNAP Cymru eich helpu chi hefyd wrth i chi barhau i ddatrys eich anghydfod.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth, mae modd i chi gysylltu ag unrhyw un o'r canlynol:

- **Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo) yn ysgol/lleoliad eich plentyn.**
  Cysylltwch â swyddfa'r ysgol i wybod pwy yw'r Cydlynydd ADY yn ysgol eich plentyn:
- **Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant:**
  Swyddog Cyswllt â'r Teulu
  ☎ 01443 744333
  ✉ GweinydduAAA@rctcbc.gov.uk
- **SNAP Cymru:**
  Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth a Chymorth Annibynnol
  ☎ 0808 801 0608 website
  www.snapcymru.org
- **Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru**
  ☎ 0300 025 9800
  ✉ tribiwnlysoeddcymru@llyw.cymru

**Os ydych chi'n anhapus ag unrhyw beth, dylech chi fynegi'ch barn cyn gynted ag sy'n bosibl.**

Os ydych chi'n poeni am y cynnydd y mae eich plentyn yn ei wneud yn yr ysgol neu yn y coleg, dylech chi siarad â'r athro dosbarth yn gyntaf. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi fynd i'r afael â materion, eu datrys yn brydlon ac atal problemau rhag gwaethygu.

Eich nodiadau....